OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 1565

## Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2011

## RHAN 2

Y COMISIYNWYR

### Y Comisiynwyr

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i erthygl 9, bydd corff o wyth o Gomisiynwyr, a adwaenir fel Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot, a benodir yn unol â Rhan 2 o'r Gorchymyn hwn a chyda phŵer i arfer y swyddogaethau a roddir i'r Comisiynwyr gan neu o dan y Gorchymyn hwn.

(2) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, rhaid i'r Comisiynwyr redeg yr ymgymeriad fel pe bai'r Comisiynwyr, ym mhob cyswllt, yr un person â'r Comisiynwyr blaenorol.

### Cyfansoddiad y Comisiynwyr

**5.**—(1) Ar ac ar ôl dyddiad y cyfansoddiad newydd, cyfansoddir y Comisiynwyr fel a ganlyn—

(a) un aelod a benodir gan bob un o'r canlynol—

(i) Cyngor Sir Penfro; a

(ii) Cyngor Cymuned Saundersfoot; a

(b) chwe aelod a benodir gan banel penodiadau.

(2) Rhaid i bob Comisiynydd a benodir o dan baragraff (1) fod yn berson sy'n ymddangos i'r corff sy'n penodi yn berson y mae ganddo wybodaeth, profiad neu allu arbennig, sy'n briodol ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r Comisiynwyr yn effeithlon, effeithiol a darbodus gan gynnwys gwybodaeth, profiad neu allu arbennig mewn un neu ragor o'r materion canlynol—

(a) rheoli harbyrau;

(b) llongau neu fathau eraill o gludiant;

(c) pysgota morol;

(ch) profiad masnachol neu ddiwydiannol priodol;

(d) rheolaeth ariannol;

(dd) gweinyddu a threfnu gweithwyr;

(e) defnyddio'r harbwr ar gyfer chwaraeon a hamdden;

(f) materion amgylcheddol sy'n effeithio ar harbyrau;

(ff) gwybodaeth benodol neu ddiddordeb ynglŷn â'r gymuned leol a'r gymuned ehangach, yn y cyd-destun economaidd a chymdeithasol y mae'r Comisiynwyr yn gweithredu ynddo;

(g) twristiaeth a hamdden; ac

(ng) unrhyw sgiliau a galluoedd eraill a ystyrir gan y Comisiynwyr o bryd i'w gilydd yn berthnasol o ran cyflawni eu swyddogaethau fel Comisiynwyr;

a rhaid i'r panel penodiadau ymdrechu i sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, bod gan y Comisiynwyr a benodir, ar y cyd, wybodaeth, profiad a gallu arbennig mewn ystod eang a chydategol o faterion sy'n berthnasol o ran cyflawni eu swyddogaethau yn effeithlon, effeithiol a darbodus.

## Dethol Comisiynwyr

**6.**—(1) Rhaid i bob corff sy'n penodi wneud y penodiadau y darperir ar eu cyfer gan erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn ar sail teilyngdod, yn unol â pholisi recriwtio cyhoeddedig ac ar ôl rhoi sylw i gyfle cyfartal.

(2) Wrth wneud penodiad o dan erthygl 5(1) rhaid i bob corff sy'n penodi weithredu yn unol ag unrhyw ganllawiau a ddyroddir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru ynglŷn ag arfer swyddogaethau o'r fath.

## Y panel penodiadau

**7.**—(1) Bydd panel penodiadau, a fydd yn cynnwys—

(a) cadeirydd neu is-gadeirydd y Comisiynwyr;

(b) un person a enwebir gan y pwyllgor cynghori;

(c) un person a enwebir gan Gyngor Sir Penfro; ac

(ch) un person a enwebir gan Gyngor Cymuned Saundersfoot.

(2) Rhaid i'r panel penodiadau ymgynghori â'r Comisiynwyr cyn gwneud unrhyw benodiad, a rhoi i'r clerc hysbysiad ysgrifenedig o bob penodiad a wneir gan y panel penodiadau.

(3) Rhaid i bob aelod o'r panel penodi weithredu'n annibynnol, ac nid fel cynrychiolydd y corff a enwebodd yr aelod hwnnw.

(4) Ni chaiff gweithredoedd a thrafodion y panel penodiadau eu hannilysu gan unrhyw swydd wag sengl ymhlith ei aelodau.

## Penodi Comisiynwyr a thymhorau mewn swydd

**8.**—(1) Rhaid gwneud y penodiadau cyntaf o dan erthygl 5(1) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, a beth bynnag cyn dyddiad y cyfansoddiad newydd.

(2) O blith y Comisiynwyr a benodir felly—

(a) bydd pedwar ohonynt yn dal swydd am gyfnod o dair blynedd sy'n cychwyn ar ddyddiad y cyfansoddiad newydd, a rhaid penodi un o'r pedwar i gadeirio'r Comisiynwyr;

(b) bydd pedwar yn dal swydd am gyfnod o bedair blynedd, sy'n cychwyn ar ddyddiad y cyfansoddiad newydd.

(3) Ar ddiwedd eu tymor mewn swydd, caiff y panel penodiadau estyn tymor mewn swydd un neu ragor (ond ddim mwy na phedwar) o'r Comisiynwyr a benodwyd gan y panel o dan erthygl 5(1)(b), am gyfnod o hyd at flwyddyn fan hwyaf.

## Darpariaethau trosiannol

**9.**—(1) Ar y diwrnod y daw'r Gorchymyn hwn i rym, rhaid i bob un o'r canlynol—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) Cyngor Sir Penfro; ac

(c) Cyngor Cymuned Saundersfoot;

benodi Comisiynydd interim dechreuol i redeg yr ymgymeriad ac arfer y swyddogaethau a roddir i'r Comisiynwyr gan y Gorchymyn hwn yn ystod y cyfnod rhwng y dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym a dyddiad y cyfansoddiad newydd.

(2) Bydd pob Comisiynydd interim dechreuol a benodir o dan erthygl 9(1) yn dal y swydd honno ac, yn achos y cadeirydd a'r is-gadeirydd, ei swydd briodol, tan ddyddiad y cyfansoddiad newydd fel pe bai wedi ei benodi o dan erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn, oni fydd y Comisiynydd interim dechreuol hwnnw'n marw, neu'n ymddiswyddo neu'n cael ei ddatgymhwyso rhag dal swydd cyn dyddiad y cyfansoddiad newydd.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), nid yw erthygl 15 ac Atodlen 2 yn gymwys i'r Comisiynwyr interim dechreuol.

(4) Wrth arfer eu swyddogaethau, rhaid i'r Comisiynwyr interim dechreuol gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru ynghylch unrhyw ddarpariaeth o'r Gorchymyn hwn (gyda pha bynnag addasiadau (os bydd rhai) a bennir gan Weinidogion Cymru yn y cyfarwyddyd) a ystyrir yn gymwys i'r Comisiynwyr interim dechreuol.

(5) Ar ddyddiad y cyfansoddiad newydd—

(a) bydd pob contract, gweithred, bond, cytundeb ac offeryn arall sy'n bodoli er budd, neu yn erbyn, a phob hysbysiad sydd mewn grym ac a roddwyd (neu sy'n cael effaith fel pe rhoddwyd hwy) gan neu i'r Comisiynwyr interim dechreuol, mewn grym ac effaith llawn er budd, neu yn erbyn, y Comisiynwyr; a

(b) ni fydd lleihad yn effaith unrhyw achos neu weithrediad, neu sail unrhyw achos neu weithrediad, sydd yn yr arfaeth neu'n bodoli ar ddyddiad y cyfansoddiad newydd, gan neu yn erbyn y Comisiynwyr interim dechreuol, o ganlyniad i'r Gorchymyn hwn, a cheir parhau, dwyn ymlaen a gorfodi achos neu weithrediad o'r fath gan, neu yn erbyn, y Comisiynwyr.

### Tymhorau mewn swydd y Comisiynwyr dilynol

**10.**—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr erthygl hon, bydd Comisiynydd a benodir o dan erthygl 5(1) yn dal ei swydd am gyfnod o dair blynedd o ddyddiad y penodiad.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i Gomisiynwyr a benodir yn unol ag erthygl 8(1) neu o dan erthygl 11.

(3) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i erthyglau 12 a 13 a pharagraff 10 o Atodlen 2.

### Swyddi gwag dros dro

**11.**—(1) Pan fo swydd Comisiynydd yn mynd yn wag dros dro, rhaid i'r panel penodiadau benodi person arall i lenwi'r swydd wag, ac eithrio pan nad yw gwneud hynny yn rhesymol ymarferol, ac wrth wneud hynny rhaid iddo gydymffurfio ag erthyglau 5(2) a 6, fel pe bai'r cyfeiriadau yn yr erthyglau hynny at erthygl 5(1) ac erthygl 5 yn gyfeiriadau at yr erthygl hon.

(2) Yn ddarostyngedig i erthyglau 12 a 13 a pharagraff 10 o Atodlen 2, bydd Comisiynydd a benodir i lenwi swydd wag dros dro o dan yr erthygl hon yn dal ei swydd yn ystod gweddill tymor y Comisiynydd yr aeth ei swydd yn wag (gan gynnwys unrhyw estyniad o'r tymor hwnnw).

### Datganiad sydd i'w wneud gan Gomisiynwyr

**12.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson weithredu fel Comisiynydd o dan erthygl 4 cyn bo'r person hwnnw wedi gwneud y datganiad a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn (neu ddatganiad sydd â'r un effaith).

(2) Bydd person sy'n methu â gwneud y datganiad hwnnw o fewn tri mis ar ôl ei benodi yn peidio â bod yn Gomisiynydd.

**Datgymhwyso Comisiynwyr**

**13.**—(1) Os bodlonir y Comisiynwyr o unrhyw un o'r canlynol—

(a) bod Comisiynydd wedi bod yn absennol o gyfarfodydd o'r Comisiynwyr am gyfnod o dri mis yn olynol heb ganiatâd y Comisiynwyr; neu

(b) bod Comisiynydd wedi mynd yn fethdalwr neu wedi gwneud trefniant â chredydwyr; neu

(c) bod Comisiynydd yn analluog i gyflawni swyddogaethau Comisiynydd oherwydd salwch corfforol neu feddyliol; neu

(ch) nad yw Comisiynydd rywfodd arall yn gallu, yn fodlon neu'n addas i gyflawni swyddogaethau Comisiynydd;

caiff y Comisiynwyr ddatgan bod swydd y person hwnnw fel Comisiynydd yn wag, ac ar hynny bydd y swydd honno'n wag.

(2) At ddibenion paragraff (1)(a), ceir trin presenoldeb Comisiynydd mewn cyfarfod o unrhyw bwyllgor o'r Comisiynwyr y mae'r Comisiynydd hwnnw'n aelod ohono fel pe bai'n bresenoldeb mewn cyfarfod o'r Comisiynwyr.

**Yswiriant indemnio ar gyfer Comisiynwyr**

**14.** Caiff y Comisiynwyr ymuno mewn, a thalu premiymau ar gyfer, contract yswiriant i indemnio'r Comisiynwyr ar y cyd neu'n unigol rhag atebolrwydd personol sy'n codi o unrhyw weithred neu anwaith gan y Comisiynwyr neu gan unrhyw un ohonynt; sef gweithred neu anwaith nad oedd y Comisiynydd neu'r Comisiynwyr dan sylw yn gwybod bod y weithred honno neu'r anwaith hwnnw yn doriad o'i ddyletswydd, neu o'u dyletswydd, neu'n ddi-hid ynglŷn ag a oedd y weithred neu'r anwaith yn dor-dyletswydd ai peidio.

**Darpariaethau sy'n gymwys i Gomisiynwyr**

**15.** Yn ddarostyngedig i erthygl 9 mewn cysylltiad â'r Comisiynwyr interim dechreuol, mae'r darpariaethau a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn cael effaith mewn perthynas â'r Comisiynwyr.